

Fersiwn		9
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Hydref 2024

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

**gweithio'n well
workwell**

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

HS 24

Polisi Rheoli Asbestos



RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Polisi Rheoli Asbestos
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif Ffôn	01443 425531
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Mai 1996
Swyddog Adolygu	Stephen Humphreys
Dyddiad diwygio	Hydref 2024
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mai 1996	Gerwyn Hogben
Mawrth 2009	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Ebrill 2011	Mike Murphy
Chwefror 2015	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
Awst 2018	Mike Murphy
Hydref 2019	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
Hydref 2024	Stephen Humphreys
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi'i chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol	Ebrill 1996
Rheolwyr y Cyngor	Ebrill 1996
Cabinet	Mai 1996

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	1
2. Datganiad Polisi	2
3. Cofnodion	5
4. Cyngor	5
Rhestr Wirio Rheolwyr Adeiladau/Unigolion sy'n Gyfrifol	6

DRAFT

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cafodd y polisi yma ei baratoi er mwyn rheoli asbestos yn adeiladau Cyngor Rhondda Cynon Taf (y Cyngor), ac er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Rheoli Asbestos (2012) (cyfeirir atyn nhw fel 'y Rheoliadau' o hyn ymlaen).

1.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe bai ffibrau asbestos yn cael eu gollwng i'r awyr ac yn cael eu hanadlu, byddai modd iddyn nhw achosi clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, fel mathau o ganser sy'n effeithio ar yr ysgyfaint a leinin y frest. Po fwyaf o ffibrau asbestos sy'n cael eu hanadlu mewn, y mwyaf yw'r risg.

Cyhyd â bod deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) mewn cyflwr da a fyddan nhw ddim yn cael eu symud neu'u difrodi, dydyn nhw ddim yn beryglus. Ond os yw deunyddiau'n cael eu symud neu'u difrodi, mae modd iddyn nhw beryglu iechyd oherwydd bod ffibrau asbestos yn cael eu gollwng i'r awyr ac mae modd i bobl eu hanadlu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi bellach yn anghyfreithlon defnyddio asbestos wrth adeiladu neu adnewyddu unrhyw adeilad. Serch hynny, cafodd ei ddefnyddio mewn adeiladau yn y gorffennol, ac mae llawer ohono yn parhau i fod yn yr adeiladau hynny. Mae'n beryglus i'r gweithwyr hynny, yn arbennig, sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio. Mae'r gweithwyr yn cynnwys:

- gweithwyr adeiladu a dymchwel, towyr, trydanwyr, peintwyr a phapurwyr, seiri, plymwyr, gosodwyr nwy, plastrwyr, gosodwyr siopau, peirianwyr gwresogi ac awyru ac arolygwyr;
- unrhyw un sy'n gweithio ym maes electroneg, er enghraifft, peirianwyr ffonau a thechnoleg gwybodaeth a'r rheiny sy'n gosod larymau;
- gweithwyr cynnal a chadw cyffredinol a'r rheiny sy'n gwneud gwaith ar ffabrigau adeiladau.

1.3 Mae 3 phrif fath o asbestos, er enghraifft:

- crosidolit (glas);
- amosit (brown);
- crysotil (gwyn).

Does dim modd eu hadnabod wrth eu lliw yn unig.

Mae pob math o asbestos yn cael ei ddsbarthu'n garsinogen Categori 1, ond mae asbestos glas (crosidolit) ac asbestos brown (amosit) yn fwy peryglus nag asbestos gwyn (crysotil).

2. **DATGANIAD POLISI**

2.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau i reoli asbestos mewn adeiladau y mae'n ddeiliad dyletswydd ar eu cyfer, er enghraifft:

- os yw'n berchen ar yr adeiladau;
- os yw'n gyfrifol am yr adeiladau drwy gontract neu gytundeb tenantiaeth;
- os yw'n gyfrifol am yr adeiladau, ond heb gontract neu gytundeb ffurfiol;
- os yw'n berchen ar adeiladau aml-feddiannaeth ac yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ac atgyweirio'r adeiladau cyfan.

Dyma'r adeiladau perthnasol:

- pob adeilad sydd ddim yn gartref, waeth beth yw'r busnes;
- manau cyhoeddus mewn adeiladau domestig, er enghraifft, cynteddau, grisiau, siafftau lifftiau, toeau.

Rhaid i bawb sydd â gwybodaeth am yr adeilad gydweithio â'r deiliad dyletswydd, er enghraifft, rhaid i brydleswyr ganiatáu i asiantiaid rheoli archwilio'r adeilad.

2.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn unol â'i ddyletswydd o dan y Rheoliadau yn ymwneud â rheoli risg asbestos, fod gofyn iddo wneud y canlynol:

- cymryd camau rhesymol i ddarganfod a oes deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn yr adeilad. Os oes unrhyw ddeunyddiau, nodi nifer y deunyddiau, eu lleoliad a'u cyflwr;
- rhagdybio bod deunyddiau yn cynnwys asbestos, oni bai fod tystiolaeth gref i'r gwrthwyneb;
- cadw cofnod o leoliad a chyflwr unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu ddeunyddiau y tybir eu bod nhw'n cynnwys asbestos, a'i ddiweddarau;
- asesu'r risg y bydd ffibrau o ddeunyddiau o'r fath yn beryglus i unrhyw un;

- paratoi cynllun sy'n nodi'n fanwl sut bydd risg sy'n deillio o'r deunyddiau yma yn cael ei rheoli;
- cymryd y camau angenrheidiol i roi'r cynllun ar waith;
- adolygu'r cynllun a'i fonitro yn rheolaidd, yn ogystal â'r trefniadau i'w roi ar waith, fel bod y cynllun yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol;
- rhoi gwybodaeth am leoliad a chyflwr unrhyw rai o'r deunyddiau yma i unrhyw un sy'n debygol o weithio arny'n nhw neu'u symud.

2.3 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Rheoliadau i reoli asbestos. Bydd 'Garfan Asbestos' y Cyngor, sy'n rhan o Adran Eiddo / Cynnal a Chadw'r Cyngor yn ei gynorthwyo yn hyn o beth. Bydd aelodau o'r Garfan Asbestos yn paratoi cyfarwyddiadau i reolwyr/unigolion sy'n gyfrifol a swyddogion yn ôl y gofyn.

Bydd pob aelod o'r Garfan Asbestos, yn unol â'i swyddogaethau a'i ddyletswyddau, yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gymwys ym mhob mater yn ymwneud â rheoli asbestos yn yr adeiladau hynny y mae'r Cyngor yn ddeiliad dyletswydd ar eu cyfer. Bydd y Cyngor yn cadw cofnodion o'r holl hyfforddiant o'r fath.

Bydd dyletswyddau'r Garfan Asbestos yn cynnwys:

- trefnu i arolygon asbestos gael eu cynnal ym mhob adeilad perthnasol er mwyn darganfod a yw unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos i'w cael, ynghyd â nodi nifer y deunyddiau o'r fath, eu lleoliad a'u cyflwr;
- o ganlyniad i bob arolwg, trefnu i Gynllun Rheoli Asbestos (AMP) gael ei baratoi ar gyfer pob adeilad. Bydd hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, a'r camau y mae rhaid eu cymryd i'w rheoli nhw;
- cynnal sesiynau briffio codi ymwybyddiaeth ar gyfer rheolwyr adeiladau / unigolion sy'n gyfrifol yn ymwneud â defnyddio, rheoli a chynnal y Cynllun Rheoli Asbestos er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eu hadeiladau yn cael eu rheoli mewn modd priodol;
- adolygu pob Cynllun Rheoli Asbestos a chydweithio â rheolwyr adeiladau / unigolion sy'n gyfrifol a gweithwyr y Cyngor a/neu gontractwyr allanol, fel sy'n briodol, cyn bwrw ymlaen â gwaith adeiladu, cynnal a chadw neu adnewyddu priodol;

- adolygu pob Cynllun Rheoli Asbestos a'i fonitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol;
- paratoi gweithdrefnau a'u gweithredu, yn ôl yr angen, a fydd yn sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu rheoli'n effeithiol mewn unrhyw adeilad y mae'r Cyngor yn ddeiliad dyletswydd ar ei gyfer.

2.4 Ar y cyd â'r Garfan Asbestos, rhaid i reolwyr adeiladau / unigolion sy'n gyfrifol sicrhau, lle bo'n briodol:

- bod arolwg asbestos wedi'i gynnal ar gyfer eu hadeilad. Rhaid hefyd sicrhau, yn sgil yr arolwg, fod Cynllun Rheoli Asbestos wedi'i gynnal a bod copi ar gael yn yr adeilad;
- eu bod nhw wedi cymryd rhan mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ymwneud â defnyddio, rheoli a chynnal y Cynllun Rheoli Asbestos;
- bod pob contractwr sy'n ymweld yn effro i'r Cynllun Rheoli Asbestos, yn ei archwilio'n fanwl, yn cydnabod ei fod wedi gwneud hynny ac yn ystyried ei gynnwys wrth wneud unrhyw waith;
- eu bod nhw'n cysylltu â'r Garfan Asbestos cyn dechrau unrhyw waith adeiladu, cynnal a chadw neu adnewyddu priodol yn yr adeiladau a allai gael effaith ar unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, neu os nad ydyn nhw'n siwr beth fydd canlyniadau'r gwaith;
- bod gweithwyr ar y safle yn cael eu briffio, yn ôl yr angen, ar gynnwys y Cynllun Rheoli Asbestos, yn arbennig unrhyw unigolion sy'n debygol o gynnal unrhyw waith, er enghraifft, gofalwyr, tasgmyn, ac ati;
- bod gweithwyr ar y safle, (yn benodol y rhai a allai fod yn debygol o wneud y gwaith) yn cael gwybod am unrhyw feysydd sydd heb eu harolygu ar gyfer asbestos, y gweithdrefnau i'w dilyn os ydyn nhw'n dod o hyd i ddeunydd amheus nad yw wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli Asbestos a'r trefniadau i'w dilyn os yw'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu symud neu'u difrodi a sut i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath;
- eu bod nhw'n dilyn y Cynllun Rheoli Asbestos y mae'r Garfan Asbestos wedi'i baratoi wrth reoli unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eu hadeilad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn yr adeilad;
- eu bod nhw'n monitro unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eu hadeilad, a chysylltu â'r Garfan Asbestos

ynghylch unrhyw bryderon sy gyda nhw, yn benodol os yw cyflwr unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn gwaethygu.

- 2.5 Mae rolau a chyfrifoldebau eraill personél allweddol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Asbestos.
- 2.6 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yw rhoi darpariaethau'r polisi yma ar waith a pharatoi strategaeth weithredu.

3. COFNODION

- 3.1 Mae'r cofnodion sy'n cael eu cadw yn cynnwys y manylion yma:
 - manylion yr ymgynghorwyr arbenigol penodedig sy'n gyfrifol am gynnal yr arolwg asbestos a pharatoi'r gofrestr asbestos;
 - canfyddiadau'r arolwg asbestos;
 - manylion am ddiweddariadau / adolygiadau o'r gofrestr asbestos a'r Cynllun Rheoli Asbestos;
 - canlyniadau unrhyw archwiliad monitro, prawf neu wiriad sy'n cael eu cynnal, a'r dyddiadau;
 - tystiolaeth bod contractwyr sy'n gwneud gwaith wedi archwilio'r gofrestr asbestos a'r Cynllun Rheoli Asbestos.
- 3.2 Dylid cadw'r cofnodion uchod yn barhaus drwy ddiweddaru'r gofrestr asbestos a'r Cynllun Rheoli Asbestos.
- 3.3 Dylai rheolwyr safle gadw cofnodion o'r holl wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant a ddarperir i weithwyr (megis rheolwyr safle, gofalwyr, ac ati) a/neu, lle bo'n briodol, dylid cadw cofnodion yn ganolog gan feysydd gwasanaeth. Lle trefnir sesiynau briffio i godi ymwybyddiaeth o asbestos gan swyddogion y Garfan Asbestos, dylai'r swyddogion yma sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

4. CYNGOR

- 4.1 Mae cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi yma ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, ffôn 01443 425531.
- 4.2 Mae modd cael cyngor ar unrhyw fater technegol sy'n ymwneud ag asbestos gan y Garfan Asbestos, Cynnal a Chadw Corfforaethol, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ, ffôn 01443 281155.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.

**RHESTR WIRIO RHEOLWYR ADEILADAU / UNIGOLION SY'N
GYFRIFOL**

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	✓	X
• Oes arolwg asbestos wedi'i gynnal ar gyfer eich adeilad?			
• Oes Cynllun Rheoli Asbestos yn ei le ar gyfer eich adeilad?			
• Ydych chi wedi cymryd rhan mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ymwneud â defnyddio, rheoli a chynnal y Cynllun Rheoli Asbestos?			
• Ydych chi'n cysylltu â'r Garfan Asbestos cyn bwrw ymlaen ag unrhyw waith adeiladu, cynnal a chadw neu adnewyddu yn eich adeilad y byddai modd iddo gael effaith ar unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, neu os dydych chi ddim yn siwr beth fydd canlyniadau'r gwaith?			
• Ydych chi'n sicrhau bod pob contractwr sy'n ymweld yn effro i'r Cynllun Rheoli Asbestos, yn ei archwilio'n fanwl, yn cydnabod ei fod wedi gwneud hynny ac yn ystyried ei gynnwys wrth wneud unrhyw waith?			
• Ydych chi'n sicrhau bod gweithwyr yn cael eu briffio, yn ôl yr angen, ar gynnwys y Cynllun Rheoli Asbestos, yn arbennig unrhyw unigolion sy'n debygol o gynnal gwaith, er enghraifft, gofalwyr, tasgryn, ac ati?			
• Ydych chi'n gofalu bod gweithwyr (yn benodol y rhai a allai fod yn debygol o wneud y gwaith) yn cael gwybod am unrhyw ardaloedd sydd ddim wedi'u harolygu ar gyfer asbestos, y gweithdrefnau i'w dilyn os byddan nhw'n dod o hyd i ddeunydd amheus nad yw wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli Asbestos a'r trefniadau i'w dilyn os yw deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu symud neu'u difrodi a sut i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath?			
• Ydych chi'n dilyn y Cynllun Rheoli Asbestos y mae'r Garfan Asbestos wedi'i baratol wrth reoli unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eu hadeilad? Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn yr adeilad.			
• Ydych chi'n monitro unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich adeilad, ac yn cysylltu â'r Garfan Asbestos ynghylch unrhyw bryderon sy gyda chi, yn benodol os yw cyflwr unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn gwaethygu?			
• Ydych chi'n sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i chwblhau gan: _____ Wedi'i gadarnhau gan: _____

(Llofnod)

(Llofnod)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Swydd: _____

Swydd: _____

Dyddiad: _____

Dyddiad: _____

DRAFT